

LLAFAR BRO



50c

Ieuanc a Hen Ddarlleno
o Leufer Brwd 'Lafar Bro'

Ebrill
2018

rhif 471



YN Y RHIFYN HWN

Newyddion o'r fro a'i
hysgolion

'Annwyl Olygydd'

Llofiion o'r Fro

Ffermydd Dalgylch
Llafar Bro

Taith Elin Roberts i
Batagonia

Stolpia -
Briwsion Glanypwll

Chwaraeon

Rhod y Rhigymwr
a llawer mwy



•DYDDIADAU PWYSIG

Diwrnod olaf derbyn
deunydd rhifyn Mai fydd
**Dydd Gwener
27ain o Ebrill**

Golygydd Mis Mai
Iwan Morgan

Plygu Rhifyn Ebrill
9fed Mai
Cwmni Seren

Diolch i Ferched y Wawr
Traws, Clwb Bowls a'r
ffyddloniaid arferol am blygu
rhifyn Ebrill

Pwyllgor nesaf Llafar Bro:
7 o'r gloch nos lau,
17eg o Fai
**YN Y GANOLFAN
GYMDEITHASOL**

**TUDALEN FLAEN:
AR GARLAM I DDYSGU'R
GYMRAEG**

AR GARLAM I DDYSGU'R GYMRAEG

Symudodd [redacted] o Fagladesh i
Flaenau Ffestiniog ym mis Rhagfyr y llynedd. Mae'r
ddwy yn mynychu Ysgol y Moelwyn ac wedi bod yn
dysgu Cymraeg yn y Ganolfan Iaith ym
Mhorthmadog ers chwech wythnos erbyn hyn ac
wedi gwneud cynnydd cychwynnol arbennig.

Dyma air gan y ddwy chwaer.

[redacted] ydw i. Dw i'n mynd i Ysgol y
Moelwyn, dwi'n un deg tri oed a dwi yn blwyddyn 8.
Dw i'n byw hefo fy mam, dad a fy chwaer bach [redacted].
Does gen i ddim anifeiliaid.


Dw i'n hapus iawn yn mynd yn ôl i'r ysgol achos
rwan dw i'n gallu deall a siarad Cymraeg hefo fy
ffrindiau newydd yn yr ysgol. Dw i ddim yn rhugl eto,
ond dw i wedi dysgu llawer mewn amser byr iawn.

Dw i'n gallu siarad tair iaith erbyn hyn. Bengaleg ydy
fy iaith gyntaf, ond rwan dwi'n gallu siarad Cymraeg
a tipyn bach o Saesneg.

Yn yr ysgol, dw i'n hoffi Celf, Daearyddiaeth a
Chymraeg achos maen nhw'n ddiddorol. Dw i ddim
yn hoffi Cerddoriaeth achos mae o'n ddiflas. Ar y
penwythnos, dwi'n mwynhau mynd i nofio i'r
Ganolfan Hamdden.

[redacted] ydw i. Dwi'n chwaer fach i [redacted].
Dwi'n un deg un oed a dwi yn blwyddyn saith yn
Ysgol y Moelwyn. Dwi'n hoffi darllen, ond dydw i
ddim yn hoffi Celf achos dwi ddim y gallu tynnu llun.
Dwi wedi bod yn dysgu Cymraeg yn y Ganolfan Iaith
ers chwech wythnos a dwi'n mynd yn ôl i'r ysgol
mewn dau wythnos. Dwi ddim yn poeni nac yn ofn
mynd yn ôl i'r ysgol, achos rwan dwi'n gallu deall
Cymraeg a dwi'n gallu siarad hefo fy ffrind Mari yn fy
iaith newydd.

Caiff y dysgwyr eu trwytho yn y Gymraeg fel eu bod
nhw'n gallu cymhathu i'r gymuned a'i defnyddio hi
yn eu bywydau pob dydd. Rhoddir pwyslais hefyd
ar ddysgu am ddiwylliant eu gwlad a tharddiad eu
hiaith newydd yn ogystal â chyfle i ddysgu y tu allan
i'r ystafell ddosbarth, sy'n rhoi profiadau
amhriiadwy i gyfoethogi'r dysgu.



Mae [redacted] yn ddwy
sydd wedi eu cynnwys ymysg disgyblion uwchradd eraill y
sir ar glawr Strategaeth Iaith Gwynedd, dogfen sydd yn
gynllun ar gyfer y Gymraeg yn ysgolion uwchradd Gwynedd.
Da yw gweld cynrychiolaeth o'r dysgwyr pontio hyn sydd yn
llwyddo i brofi nad oes angen i ddysgwyr fod yn ddysgwyr
am byth, a dyma ddylai ddigwydd drwy Gymru benbaladr.

Bydd y dysgwyr, sydd wedi symud i fyw i Wynedd o Loegr a
gwledydd y tu hwnt yn dychwelyd i'w hysgolion mewn
pythefnos, ar ôl cyfnod o wyth wythnos yn dysgu'r Gymraeg,
a hynny i ddilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg a bod
yn rhan o fywyd yr ysgol a'r gymdogaeth.

Pob dymuniad i [redacted] ar eu taith i ddysgu Cymraeg
a chroeso i Flaenau Ffestiniog.